| | |
|---|---|
| **.Date**/Dyddiad | 01 Awst 2019 |
| **Ask for**/Gofynwch am | M Curtis |
| **Telephone**/Rhif ffôn | 01446 709828 |
| **Fax**/Ffacs | |
| **e-mail**/e-bost | 21stcenturyschools@valeofglamorgan.gov.uk |
| **Your Ref**/Eich Cyf | |
| **My Ref**/Cyf | 21C/YSB |

**The Vale of Glamorgan Council**
Learning and Skills
Civic Offices, Holton Road, Barry CF63 4RU
Telephone: (01446) 700111
www.valeofglamorgan.gov.uk

**Cyngor Bro Morgannwg**
Dysgu a Sgiliau
Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri CF63 4RU
Rhif ffôn: (01446) 700111
www.bromorgannwg.gov.uk

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

At: Rieni, Gofalwyr a Gwarcheidwaid plant sy'n mynychu Ysgol Sant Baruc;
Pennaeth, Staff a Chorff Llywodraethu Ysgol Sant Baruc; Ymgynghoreion a Ragnodwyd.

Annwyl Ymgynghorai,

**Cynnig i ddarparu lleoedd ysgol ychwanegol i ateb y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol drwy ehangu Ysgol Sant Baruc o 210 o leoedd i 420 o leoedd o fis Medi 2021.**

Bu i'r Cyngor ymgynghori ag ymgynghoreion yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Sant Baruc o 210 lle i 420 lle o fis Medi 2021.

Yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, cynhaliwyd ymarfer ymgynghori ag ymgynghoreion a ragnodwyd rhwng 8 Ionawr 2019 a 22 Chwefror 2019. Nod yr ymgynghoriad oedd rhoi gwybod i ymgynghoreion a ragnodwyd am y cynnig i gynyddu nifer y llefydd ysgol cyfrwng Cymraeg yn y Barri trwy ehangu Ysgol Sant Baruc o 210 lle i 420 lle. O'r 261 ymateb, roedd 232 o blaid y cynnig, 25 yn erbyn y cynnig, ac ni fynegodd 4 unrhyw farn y naill ffordd na'r llall.

Ar 01 Ebrill 2019, ar ôl ystyried yr adroddiad ymgynghori, penderfynodd y Cabinet fwrw ymlaen â'r cynnig drwy gyhoeddi hysbysiad statudol. Cyhoeddwyd yr hysbysiad statudol ar wefan y Cyngor ar 29 Ebrill 2019 a'i ddosbarthu i ymgynghoreion rhagnodedig. Cafodd hefyd ei arddangos ym mhrif fynedfeydd Ysgol Sant Baruc. Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn sicrhau bod cyfle i unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig trefniadaeth ysgolion wneud hyn. Er mwyn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol, mae'n rhaid i wrthwynebiadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig neu drwy e-bost, a'u hanfon i'r cynigiwr cyn pen cyfnod 28 diwrnod gan ddechrau o'r diwrnod pan gyhoeddwyd yr hysbysiad ("y cyfnod gwrthwynebu"). Gan y cyhoeddwyd yr hysbysiad statudol ar 29 Ebrill 2019, roedd yn rhaid i'r gwrthwynebiadau statudol ddod i law erbyn 27 Mai 2019. Nodwyd na chafwyd gwrthwynebiad statudol yn ystod y cyfnod rhybudd statudol.

**Ar 29 Gorffennaf 2019, cymeradwyodd Cabinet Cyngor Bro Morgannwg y cynnig i ymestyn Ysgol Sant Baruc o 210 lle i 420 lle o fis Medi 2021.** O ganlyniad, caiff adeilad newydd ei godi ar gyfer Ysgol Sant Baruc ar y safle glan yr afon ar gyfer 420 disgybl a bydd yr ysgol yn symud o 1 Medi 2021.

Wrth benderfynu ar y cynnig, bu'r Cabinet yn fodlon y bydd yn cynnig yn:

- Galluogi'r ysgol i wella ymhellach wrth ddarparu ar gyfer poblogaeth ddisgyblion fwy.
- Sicrhau bod y Cyngor yn gallu darparu ar gyfer galw'r dyfodol am addysg gyfrwng Cymraeg yn seiliedig ar y tueddiadau cyfredol.
- Cynnig amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol fyddai'n gallu addasu i newid, wrth herio a chefnogi plant i gyflawni eu llawn botensial.

- Byddai'r cynnig yn cynyddu gallu'r gymuned i ddefnyddio a rhyngweithio â'r ysgol drwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol, gan fodloni anghenion yr ysgol ar yr un pryd.
- Bydd yr adeilad newydd yn bodloni safonau 'Ardderchog' BREEAM (Building Research Establishment Environmental Assessment Method) ac yn cael eu hadeiladu i safon 'A' EPC (Tystysgrif Perfformiad Ynni).
- Ategu amcanion Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Bro Morgannwg 2017-2020.
- Cyfrannu'n effeithiol at darged Llywodraeth Cymru o gyrraedd 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae'r rhesymau dros y penderfyniad mewn cysylltiad â'r ffactorau wedi'u nodi yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion fel a ganlyn:

**Ansawdd a Safonau Addysg**

Yn eu hymateb i'r ymarfer ymgynghori, dywedodd Estyn: "Barn Estyn yw fod y cynnig yn debygol o gynnal neu wella'r safonau presennol o ran addysg, darpariaeth, arweiniad a rheoli... Trwy dderbyn a gweithredu'r cynnig hwn, addysgir disgyblion mewn adeilad modern o safon dda a all gynorthwyo darparu cwricwlwm eang a chytbwys ar gyfer disgyblion y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2."

Mae gan y Cyngor uchelgais clir fod deilliannau addysgol ym Mro Morgannwg gyda'r gorau yng Nghymru ac yn cydweddu â'r rhai mwyaf llwyddiannus yn Lloegr gyda phroffiliau economaidd-gymdeithasol tebyg. Bydd y cynnig yn helpu i wireddu yr uchelgais hwn.

Bydd yr adeilad a'r safle newydd yn cynnig rhagor o gyfleoedd i ddatblygu'r cwricwlwm ac ar gyfer cynnal llesiant disgyblion. Bydd gan ddisgyblion rhagor o gyfleoedd i fanteisio ar gyfleusterau digidol a mannau dysgu awyr agored. Bydd darpariaeth well i fyfyrwyr sydd ag anghenion addysgol arbennig ar gael yn yr ysgol. Yn ogystal, bydd mynediad i gyfleusterau ffreutur ar y safle yn rhoi'r gallu i ddisgyblion a staff wneud y gorau o'u hegwyl cinio.

Yn ystod y cyfnod pontio ar ôl y penderfyniad, bydd y Cyngor yn cymryd pob cam ymarferol i darfu cyn lleied â phosibl ar y cyhoedd o amgylch glan y dŵr trwy weithio'n agos gyda'r consortiwm.

Bydd y cynnig yn sicrhau buddsoddiad mawr ei angen yn Ysgol Sant Baruc a bydd yn helpu i gyflawni newid trawsnewidiol sy'n angenrheidiol i bob myfyriwr gyflawni ei llawn botensial.

**Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion**

Bydd y cynnig yn sicrhau bod cydbwysedd cynaliadwy rhwng y cyflenwad a'r galw am leoedd ysgol gynradd yn y tymor hir yn y Barri. Bydd y cynnig yn cynyddu lleoedd ym maes addysg Gymraeg yn y Barri.

Yn eu hymateb i'r ymarfer ymgynghori, dywedodd Estyn: "Mae'r cynigydd wedi rhoi gwybodaeth ddefnyddiol a thrylwyr sy'n egluro'r rhesymeg y tu cefn i'r cynnig. Mae'r duedd gynyddol tuag addysg gyfrwng Cymraeg yn ardal y Barri yn peri anawsterau oherwydd nad oes digon o lefydd i dderbyn rhagor o ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Yn ogystal, nid yw adeiladau a thiroedd presennol Ysgol Sant Baruc yn addas ac nid oes digon o le yno i ehangu'r ddarpariaeth gyfredol. Yn dilyn cynnydd sylweddol yn yr anheddau a godir yn ardal Glannau'r Barri, mae'r cynnig yn ymgorffori adeilad newydd ac addas ar gyfer Ysgol Sant Baruc er mwyn ateb y galw m addysg gyfrwng Cymraeg yn yr ardal."

Dan y cynigion, nid oes cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ynglŷn â darparu trafnidiaeth i blant rhwng y cartref a'r ysgol. Bydd cymhwysedd am gludiant ysgol am ddim yn aros heb newid o ganlyniad i'r cynnig hwn. Ni fydd y llwybrau cerdded diogel i'r ysgol a ddefnyddir ar gyfer asesu trafnidiaeth am ddim i'r ysgol yn newid o ganlyniad i'r cynnig hwn er gwaethaf y ffaith na fydd rhai myfyrwyr yn gymwys am drafnidiaeth am ddim i'r ysgol os ydynt yn gwneud cais am ysgol fydd o fewn 2 filltir o'u

cartref.

Bydd gwell mynediad i ddisgyblion anabl a defnyddwyr arall yn yr adeilad newydd arfaethedig.

**Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill**
Darperir arian trwy fformiwla ariannu ysgolion sy’n dyrannu’r rhan fwyaf o arian ar gyfer ysgolion ar sail nifer y disgyblion.

Bydd y cynnig hwn yn golygu y gwneir buddsoddiad cyfalaf sylweddol i sefydlu ysgolion newydd a datblygu cyfleusterau o’r radd flaenaf. Amcan gost y cynllun yw £7.417 miliwn. Disgwylir y darperir cyllid yn rhannol gan Lywodraeth Cymru dan Fand B y Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Y Cyngor fyddai’n cyfrannu gweddill yr arian cyfalaf.

Amcan gost refeniw gweithredu ysgol newydd 420 lle ydy £1.43 miliwn. Y gyllideb refeniw a ddirprwywyd ar gyfer Ysgol Sant Baruc yn 2018/19 ydy £760mil. Ceid y gwahaniaeth o £670 mil o fewn Cyllideb Ysgolion Unigol, ac fe’i crëid gan y refeniw ychwanegol o’r cynnydd yn niferoedd y disgyblion o’r datblygiadau tai newydd.

**Ffactorau cyffredinol eraill**
Mae’r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi y byddai effaith gadarnhaol ar bobl â’r nodweddion a ddiogelir o ran oedran, anabledd ac ailbennu/hunaniaeth rhywedd. Byddai’r cynnig yn cefnogi’r ysgol i sicrhau bod ganddi gyfleusterau gwell i hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthnasau da rhwng y rhai â nodweddion a ddiogelir gwahanol.

Nid ymddengys y bu effaith negyddol ar y nodweddion a ddiogelir a nodwyd. Er cydnabyddir y bydd yn cymryd hirach i rai disgyblion deithio i’r ysgol, nid oes gan unrhyw blant sy’n mynychu’r ysgol ar hyn o bryd anableddau corfforol sy’n effeithio ar symudedd. Nid yw’r safle presennol yn cydymffurfio’n llawn â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 oherwydd cyfyngiadau safle. Byddai gweithredu’r cynnig yn llwyddiannus yn galluogi cydymffurfiaeth drwy ddarparu adeilad cwbl hygyrch â chyfleusterau niwtral o ran y rhywiau.

Mae’r asesiad effaith ar y Gymuned yn nodi y byddai’r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral ar y gymuned leol mewn 2 o’r 8 mesur a aseswyd. Byddai’r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol mewn 6 o’r 8 mesur a aseswyd. Yn gyffredinol, byddai’r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol.

**Yn gywir,**



Paula Ham, Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau

**Correspondence is welcomed in Welsh or English**/Croesawir Gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg